Y Brenin Asa yn gwrthod troi at Dduw

1 Brenhinoedd 15: 16-24, 2 Cronicl 16: 1-13

Gallwch lawrlwytho'r lluniau yn rhad ac am ddim o www.freebibleimages.org ar ffurf PowerPoint, Keynote, JPEG neu PDF. Mae'r Cynllun Stori yma yn dangos be sy'n digwydd ym mhob rhan o'r hanes. Darllenwch yr hanes yn y Beibl ac wedyn penderfynwch sut dych chi am gyflwyno'r stori. Mae yna le i chi sgwennu nodiadau. Gallwch ddileu unrhyw luniau/sleidiau nad ydych chi am eu defnyddio, ac ychwanegu lluniau eich hun fel bydd angen.

	Disgrifiad	Llun	Nodiadau
	1 Brenhinoedd 15: 16-24, 2 Cronicl 16: 1-13		
1	Roedd y Brenin Asa wedi teyrnasu ar Jwda am 35 mlynedd. Ym 15fed mlwyddyn ei deyrnasiad roedd byddin enfawr wedi ymosod ar Jwda, ond roedd Asa wedi troi at Dduw a'i drystio ac fe gafodd fuddugoliaeth. Roedd y wlad wedi addo ufuddhau i Dduw ac roedd y wlad wedi mwynhau heddwch am 20 mlynedd.		
2	Roedd yr Israeliaid wedi eu rhannu yn ddwy deyrnas. Roedd y Brenin Asa yn teyrnasu ar Jwda yn y De, ac roedd y Brenin Baasha yn teyrnasu ar Israel yn y Gogledd.		

3	Pan oedd Asa wedi bod yn frenin ers bron dri deg chwech o flynyddoedd, dyma Baasha, brenin Israel, yn ymosod ar Jwda. Roedd Baasha wedi gwneud cytundeb hefo Brenin Aram (Syria) ac roedden nhw wedi casglu byddin nerthol i fygwth y Brenin Asa.	
4	Symudodd milwyr Baasha i dir Benjamin, i ddinas Rama.	
5	Felly roedd yn gallu rhwystro pobl rhag mynd a dod i diriogaeth Asa brenin Jwda.	
6	Roedd Asa angen concro Rama, ond roedd Ben-hadad, brenin Syria (Aram) yn cefnogi Baasha. Yn lle gofyn i Dduw am help, dyma Asa yn penderfynu gweithredu ar ei liwt ei hun.	
7	Dyma Asa yn cymryd y cwbl o'r arian a'r aur oedd ar ôl yn stordai teml yr ARGLWYDD a stordai palas y brenin, a'i anfon gyda neges i Ben-hadad, brenin Syria, yn Damascus:	

8	“Dw i eisiau gwneud cytundeb heddwch gyda ti, fel roedd yn arfer bod rhwng fy nhad a dy dad di. Dw i'n anfon yr arian a'r aur yma i ti. Dw i eisiau i ti dorri'r cytundeb sydd rhyngot ti a Baasha, brenin Israel, er mwyn iddo stopio ymosod arnon ni.”	
9	Dyma Ben-hadad yn derbyn cynnig y brenin Asa, a dyma fe'n dweud wrth swyddogion ei fyddin am ymosod ar drefi Israel.	
10	Dyma nhw'n taro trefi Ïon, Dan, Abel-maim a canolfannau storfeydd Nafftali. Pan glywodd Baasha am hyn, dyma fe'n rhoi'r gorau i'r prosiect o adeiladu Rama. A dyma'r brenin Asa yn anfon pobl Jwda i nôl y cerrig a'r coed roedd Baasha wedi bod yn eu defnyddio i adeiladu Rama. Yna dyma Asa yn eu defnyddio nhw i adeiladau Geba yn Benjamin a Mitspa.	
11	Doedd Duw ddim wedi ei blesio fod Asa wedi dwyn y trysorau o stordai teml yr Arglwydd. Anfonodd y proffwyd Chanani at Asa i dweud wrtho, “Am dy fod wedi gofyn am help brenin Syria yn lle trystio'r ARGLWYDD, dy Dduw, wnei di byth orchfygu byddin Syria. Ti wedi bod yn ffŵl. Byddi di'n ymladd rhyfeloedd yn ddi-stop o hyn ymlaen.”	

12	Roedd Asa wedi gwylltio gyda'r proffwyd am siarad fel yna, a dyma fe'n ei roi yn y carchar. Bryd hynny dechreuodd Asa orthrymu rhai o'r bobl hefyd.	
13	Ymhen tair mlynedd dyma Asa'n dechrau dioddef o glefyd ar ei draed. Er ei fod e'n dioddef yn ddifrifol o'r afiechyd wnaeth e ddim gofyn am help yr ARGLWYDD, dim ond y meddygon. Bu farw dwy flynedd wedyn.	
14	Pan fuodd Asa farw cafodd ei roi i orwedd ar elor oedd wedi ei gorchuddio gyda pherlysiau a gwahanol bersawrau. A dyma nhw'n llosgi coelcerth enfawr i'w anrhydeddu. Pan oedd Asa wedi troi at Dduw am help roedd wedi ennilll brwydrau a mwynhau heddwch. Ond wrth beidio troi at Dduw roedd e wedi gwneud bywyd yn anodd i bawb.	
15	(Mae yna gyflwyniad arall yn y gyfres: Y Brenin Asa yn trystio Duw) Cyfieithwyd gan www.beibl.net	